# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Chymdeithas Alzheimer Cymru ac Age Cymru

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 23)

Sue Phelps, Cyfarwyddwr y Gymdeithas Alzheimer's yng Nghymru

Heather Ferguson, Pennaeth Polisi a Phrosiectau - Age Cymru

Briff Ymchwil

## Egwyl (10.30-10.45)

## 3 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

(10.45-11.15)

Heléna Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Egwyl technegol (11.15–11.20)**

## 4 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gydag Oxfam Cymru

(11.20–11.50) (Tudalennau 24 - 44)

Rachel Cable, Pennaeth Oxfam Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

(11.50)

**5.1 Llythyr at y Cadeirydd gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

(Tudalennau 45 - 46)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.50)

## 7 Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: Adroddiad 2 - Yr effaith ar iechyd meddwl a llesiant: Trafod yr adroddiad drafft

(11.50–12.20) (Tudalennau 47 - 85)

## 8 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Trafod y llythyr drafft

(12.20–12.30) (Tudalennau 86 - 97)

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

**Gofal, Tlodi a'r Coronafeirws yng Nghymru - papur briffio gan Oxfam Cymru - Medi 2020**

**Gwybodaeth am y papur hwn**

Mae'r papur hwn yn edrych ar y cysylltiadau rhwng tanbrisio gwaith gofal yng Nghymru ac argyfwng tlodi cynyddol ar sail rhywedd. Mae'n rhan o gasgliad o bapurau a gynhyrchwyd i lywio trafodaeth gyhoeddus yng Nghymru, ar draws y Deyrnas Unedig, ac o amgylch y byd. Mae'n disgrifio sut y mae menywod yn darparu'r gwaith gofal mwyaf, am dâl a di-dâl, yng Nghymru, ac yn archwilio'r heriau y mae pobl â gwahanol fathau o gyfrifoldebau gofal yn eu hwynebu. Mae hefyd yn manylu ar y dystiolaeth sy'n dod i'r golwg ynghylch effaith y coronafeirws, ac yn argymell bod llunwyr polisïau yn rhoi mwy o werth ar ofal ac yn buddsoddi mwy ynddo. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod amddiffyn pobl sy'n darparu gofal rhag tlodi, a gwerthfawrogi eu cyfraniad, wrth wraidd adferiad cyfiawn, gwyrdd a gofalgar yng Nghymru. Mae gofalwyr am dâl a di-dâl ar flaen y gad o ran ein hymateb i'r coronafeirws, gan wynebu risgiau i'n hamddiffyn ni i gyd. Ac eto, mae gofalwyr yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi. Amcangyfrifir bod 96% o'r holl ofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl ac mae llawer o'r rhain yn ei chael yn anodd ac mae angen rhagor o gymorth arnynt[1]. Mae arolwg barn gan YouGov ar ran Oxfam Cymru hefyd yn dangos bod 68% o oedolion yng Nghymru yn meddwl nad yw Llywodraeth Cymru'n ddigon gwerthfawrogol o waith gofal[2].

**'Rhaid hefyd rhoi'r gwerth priodol ar ofal di-dâl menywod yn y cartref, ac yn sector ansicr tâl-isel gofal cymdeithasol'**, Maniffesto Arweinyddiaeth Mark Drakeford[3]**.**

**Diffinio gofal**

Cred Oxfam fod gwaith gofal yn ddaioni cymdeithasol gwerthfawr sy'n hanfodol ar gyfer llesiant cymdeithasol ac economaidd, ac mae'n parhau i wynebu tanbrisio a diffyg buddsoddiad digonol. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol, gofalwyr di-dâl i bobl anabl, pobl sâl a phobl oedrannus, gweithwyr gofal plant, a'r rhai sy'n gofalu am blant, i gyd yn haeddu gwell. Pan fyddwn ni'n trafod gofal, rydym yn cyfeirio at yr holl grwpiau hyn.

Mae gwaith gofal di-dâl yn cyfeirio at ofalu am bobl heb dderbyn unrhyw iawndal ariannol penodol - mae hyn yn cynnwys rhoi bàth i blentyn neu ofalu am oedolion sâl, bregus neu rai sydd ag anghenion ychwanegol, a gwaith yn y cartref, fel coginio a golchi dillad. Mae'n digwydd fel arfer ar aelwydydd, ond gall gwmpasu gofalu am gyfeillion, cymdogion neu aelodau eraill o'r gymuned, gan gynnwys gofal ar sail wirfoddol. Yn yr adroddiad hwn, mae 'gofalwyr di-dâl' yn cynnwys rhieni a gwarcheidwaid sy'n gofalu am blant, a'r rhai sy'n gofalu am blant ac oedolion ag anghenion ychwanegol oherwydd salwch, anabledd neu oed, er enghraifft.

Ystyr gwaith gofal am dâl yw gofalu am bobl neu wneud gwaith domestig am dâl, er enghraifft, gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae'n digwydd yn y sector gofal cyhoeddus a'r sector gofal preifat, megis addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol, ond hefyd ar aelwydydd preifat. Gallai gweithwyr domestig ofalu'n uniongyrchol am bobl eraill a chyflawni tasgau megis glanhau, coginio a golchi dillad[4].

Mae gofal yn cwmpasu mwy o lawer nag unrhyw wobr ariannol: mae gwaith gofal am dâl a di-dâl yn ddaioni cymdeithasol hanfodol. Mae'n cyfrannu at ddatblygu galluoedd dynol, mae'n helpu plant i ffynnu a dysgu, ac oedolion i orffwys a bod yn barod am waith am dâl, ac mae'n helpu pobl â salwch neu anabledd i fod yn iach a chyfrannu at gymdeithas a'r economi[5]. Mae'n allweddol i ni i gyd ond nid yw'n amlwg o gwbl mewn mesurau economaidd ac mae'n cael ei danbrisio'n systematig.

**Rhagarweiniad**

Mae'r papur hwn yn edrych ar y cysylltiad rhwng tanbrisio gwaith gofal yn systemig a thlodi yng Nghymru, yn enwedig yng nghyd-destun yr argyfwng coronafeirws sy'n parhau. Nid yw tlodi yn anorfod, mae modd ei oresgyn - ac un cam allweddol yn y broses hon yw herio'r strwythurau sy'n achosi ac yn gyrru tlodi sy'n gysylltiedig â gofal, a rhoi gwerth ar ofal a gofalwyr a buddsoddi'n ddigonol ynddynt. Mae angen buddsoddiad digonol mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl er mwyn iddynt allu cael bywyd y tu hwnt i ofalu, gan gynnwys y gallu i weithio a chael addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden. Cymru sy'n cael sylw yma, ond yr ydym yn pryderu'n fawr am oblygiadau difrifol tanbrisio gofal ar draws Prydain ac yn rhyngwladol - yn enwedig i fenywod sydd, yn gyffredinol, yn llai abl yn ariannol i wrthsefyll siociau incwm oherwydd anghydraddoldebau sy'n bodoli'n barod, ac sy'n debygol felly o ddioddef yr effaith fwyaf[6].

**Menywod, gofal a thlodi**

Mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn un o'r mathau o anghydraddoldeb hynaf a mwyaf hollbresennol yn y byd. Mae'n amddifadu menywod o’u llais, yn dibrisio eu gwaith, ac yn rhoi statws anghydradd iddynt - ar yr aelwyd ac ar lefel genedlaethol a byd-eang. Cymerwyd rhai camau pwysig ymlaen i newid y sefyllfa hon yn y blynyddoedd diwethaf, ond eto ni welwyd cydraddoldeb economaidd rhwng menywod a dynion yn yr un wlad, ac mae menywod yn dal yn fwy tebygol na dynion o ddioddef tlodi parhaus[7]. Yn y Deyrnas Unedig, mae menywod ar gyfartaledd yn ymddeol â £100,000 yn llai yn eu pensiwn na dynion oherwydd cyfrifoldebau gofalu a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau[8]. Mae yna hefyd sylfaen o dystiolaeth sy'n dangos, os rhoddir ystyriaeth i dlodi amser, fod cyfraddau tlodi'n cynyddu'n sylweddol, yn enwedig ar gyfer menywod[9]. Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng tanbrisio gofal ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Ledled y byd, mae gwaith gofal am dâl a di-dâl yn cael ei ddarparu'n anghymesur gan fenywod a merched, yn enwedig gan y rhai sy'n perthyn i grwpiau sy'n wynebu gwahaniaethu ar sail cefndir ethnig, cenedligrwydd ac oed, yn ogystal â gwahaniaethu ar sail rhyw[10]. Mae hyn yn digwydd oherwydd normau niweidiol sy'n golygu bod y gwaith hwn yn cael ei ystyried yn anfedrus, a'r tybiaethau ymhlyg bod cyfraniadau menywod yn llai gwerthfawr i'r economi na rhai'r dynion. O ganlyniad i'r gwaith gofal di-dâl a ddarperir ganddynt, mae gan fenywod lai o amser i geisio gwaith am dâl a datblygu gyrfa, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod â gwaith rhan-amser neu ansicr, o ennill cyflog is, ac yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi wrth iddynt heneiddio. Mae argyfwng y coronafeirws wedi amlygu pwysigrwydd gofal i'n cymdeithas ac i'n heconomi, a hefyd wedi datgelu'r cysylltiadau cryf rhwng rhywedd, gofal a thlodi. Dengys gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Oxfam[11] fod dynion wedi bod yn treulio mwy o amser yn gofalu am eu plant ac yn gwneud tasgau fel coginio a glanhau, ond bod menywod wedi bod yn gwneud yr un pethau ac maent yn *dal* i wneud mwy yn gyffredinol. Dywedodd mwy na hanner y menywod a holwyd eu bod yn treulio mwy o oriau yn coginio, yn golchi dillad, yn glanhau ac yn gofalu am blant neu aelodau o'r teulu. Mamau sengl, menywod sy'n byw mewn tlodi, a phobl o leiafrifoedd ethnig a hiliol oedd y rhai a soniodd am y cynnydd mwyaf. Dywedodd tua 43% o'r 3,558 o fenywod a holwyd eu bod yn dioddef mwy o bryder, iselder, diffyg gorffwys a chwsg, a salwch corfforol oherwydd y cynnydd mewn gwaith gofal a achoswyd gan y pandemig.

Yn ein heconomi byd-eang diffygiol, mae nifer bach o gyfoethogion yn cronni cyfoeth enfawr, yn rhannol trwy gamfanteisio ar lafur di-dâl miliynau o bobl. Mae menywod a merched yn darparu 12.5 biliwn o oriau o ofal di-dâl bob dydd, sy'n werth o leiaf $10.8 triliwn y flwyddyn i'r economi fyd-eang[12]. Gydag ychydig neu ddim amser i gael addysg, ennill bywoliaeth dderbyniol neu leisio barn ar sut y mae ein cymdeithasau'n cael eu rhedeg, gwelir yn rhy

aml fod gofalwyr wedi'u dal ar waelod yr economi a'u bod yn aml yn anweladwy mewn mesuriadau cynnydd economaidd[13].

**Gofal, y coronafeirws ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau**

Yng Nghymru, mae 23% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi[14] ac er bod rhai amrywiadau bach wedi bod, mae'r ffigur hwn wedi aros yr un fath i raddau helaeth dros y degawd diwethaf. Ers dechrau pandemig y coronafeirws, mae llawer mwy o bobl bellach yn ddibynnol ar system nawdd cymdeithasol sy'n rhy aml yn methu â'u hamddiffyn rhag tlodi. Nid yw effaith lawn y pandemig ond yn dechrau dod yn glir. Mae Canghellor Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Rishi Sunak, wedi rhybuddio bod dirwasgiad helaeth yn debygol iawn. Mae dadansoddiad diweddar yn awgrymu bod Cymru'n fwy agored i effaith economaidd y cyfyngiadau symud na llawer rhan arall o'r Deyrnas Unedig[15] am fod cyfran uwch (18%) o weithwyr yng Nghymru wedi'u cyflogi mewn diwydiannau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan y cyfyngiadau, o gymharu â Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dengys dadansoddiad gan Sefydliad Bevan fod o leiaf 30% o'r gweithlu ym mhob rhan o Gymru bron yn gwbl ddibynnol ar gymorth y llywodraeth am eu hincwm ar hyn o bryd. Mewn rhai rhannau o Gymru, yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig ac yng nghymoedd de Cymru, mae'r gyfran yn uwch eto[16]. Awgryma'r Sefydliad Dysgu a Gweithio y gallai diweithdra yng Nghymru gyrraedd lefel uwch nag y gwnaeth yn ystod y dirwasgiad diwethaf yn dilyn argyfwng ariannol 2008. Awgryma'r adroddiad fod menywod yn wynebu perygl arbennig gan fod 22% o weithwyr benywaidd yn gweithio yn y 'sectorau clo' o gymharu â 15% o ddynion[17].

**Dwi'n credu dau beth, sef yn aml iawn mae yna elfen rhywedd yn gysylltiedig â bod yn ofalwr. Dwi'n gwybod yn fy sefyllfa i fy hun ... y person oedd yn gofalu am fy mam oedd fi a'm merched, a dwi'n credu bod hynny'n gysylltiedig â rhywedd ... dwi'n credu heb os bod pobl yn disgwyl i fenywod ofalu.'** Ymchwil Gofal Di-dâl, menyw, Cymru[18].

Yng Nghymru, fel ym mhob rhan o'r byd, mae dosbarthiad anghyfartal a dibrisio gwaith gofal am dâl a di-dâl yn effeithio'n anghymesur ar fenywod trwy gydol eu bywydau. Mae'n effeithio'n aruthrol ar fenywod, oherwydd 'mae'n parhau anghydraddoldebau rhyw ac economaidd, yn tanseilio eu hiechyd a'u lles, yn cyfyngu ar eu ffyniant economaidd, yn ysgogi bylchau o ran rhywedd mewn cyflogaeth a chyflogau ac yn chwyddo'r gwendidau presennol'[19]. Mae menywod wedi bod ar flaen y gad o ran yr ymateb i'r coronafeirws ac maent yn debygol o gael eu taro waethaf yn economaidd[20]. Wrth i'r cyfyngiadau symud lacio yng Nghymru, mae'r arafwch o ran agor lleoliadau gofal plant yn bryder difrifol i lawer - gan gyfyngu ar allu llawer o fenywod i ddychwelyd i'r gwaith. Ar ben hynny, dengys gwaith ymchwil a gynhaliwyd ledled y Deyrnas Unedig gan Gyngor ar Bopeth fod dau o bob pum rhiant neu ofalwr yn wynebu colli eu swyddi ac 'er bod yr ymchwil newydd yn dangos bod risg diswyddiadau yn eang, gydag un ym mhob chwech o'r boblogaeth oedran gweithio yn wynebu colli ei swydd, mae'n awgrymu bod y rhai sydd yn yr amgylchiadau mwy bregus yn debygol o ddioddef yr ergyd waethaf'[21].

**'Mae'r rhai sydd wedi dechrau gofalu yn ystod y pandemig yn fwy tebygol o fod yn dygymod â gwaith a gofal plant ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau gofalu - tasg anhygoel o anodd a all, heb gymorth gan gyflogwyr neu wasanaethau gofal, fod yn ormod i ddygymod â hi. Rydym eisoes yn gweld bod 600 o bobl y dydd** (ledled y Deyrnas Unedig) **yn rhoi'r gorau i waith am dâl, sy'n gost enfawr i'r economi ac i gyllid personol. Cafodd gofalwyr di-dâl eu taro'n arbennig o galed gan y pandemig. Mae llawer wedi cyrraedd pen eu tennyn, ar ôl methu â chael y gwasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen arnynt. Mae eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl yn y fantol ac mae dirfawr angen seibiant arnynt**', Helen Walker, Prif Weithredwr, Carers UK[22].

**Gwneud i ofal gyfrif yng Nghymru**

O ran gofal, bydd yr argyfwng hwn yn effeithio'n fwy ar fenywod oherwydd anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes a'r norm cymdeithasol sy'n peri bod gofalu yn rôl i fenywod yn bennaf. Mae hyn yn eu cloi mewn cylchoedd tlodi o ran amser ac incwm, gan eu hamddifadu o'r adnoddau i allu cyfrannu at ddatblygu atebion. Yn y Deyrnas Unedig, mae degawd o dorri ar wasanaethau cyhoeddus a nawdd cymdeithasol gan y llywodraeth wedi effeithio'n anghymesur ar fenywod - yn enwedig menywod o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig - oherwydd 'anghydraddoldebau strwythurol sy'n golygu eu bod nhw'n ennill llai, maent yn berchen ar lai ac mae ganddynt fwy o gyfrifoldeb am ofal di-dâl a gwaith domestig'[23].

I unioni'r sefyllfa, mae'n gwbl allweddol bod menywod yn weladwy mewn prosesau gwneud penderfyniadau - yn enwedig ar adeg o argyfwng. Mae Cymru yn cymryd rhai camau ymlaen tuag at gynrychiolaeth gyfartal, ond mae llawer i'w wneud o hyd, ar bob lefel o lywodraeth. Mae dirfawr angen gwella statws cynrychiolaeth gyfartal i fenywod mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Dim ond 28% o gynghorwyr lleol, dim ond 23% o arweinwyr cynghorau, a dim ond 36% o brif weithredwyr cynghorau sy'n fenywod[24]. O gofio rôl awdurdodau lleol mewn gofal, mae'n allweddol bod hyn yn newid.

Yn ystod pandemig y coronafeirws, mae 79% o ofalwyr di-dâl yng Nghymru yn gorfod darparu mwy o ofal i'w hanwyliaid, ac mae 36% ohonynt yn darparu mwy o ofal oherwydd bod eu gwasanaethau gofal a chymorth lleol wedi lleihau neu gael eu cau[25]. Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, cafodd gofalwyr eu tanbrisio am lawer gormod o amser, a buddsoddwyd rhy ychydig o lawer mewn gwasanaethau gofal. Yn ystod Wythnos Gofalwyr 2020, galwodd chwe elusen, o dan arweiniad Carers UK, ar y llywodraeth i roi cynllun ar waith ar frys i ddiwygio gofal cymdeithasol a phennu buddsoddiad hirdymor mewn gwasanaethau gofal a chymorth. Byddai hynny'n rhoi'r cyfle i ofalwyr di-dâl gael seibiannau o'u rôl ofalu, ac aros mewn gwaith am dâl os dymunant wneud hynny. Mae angen i'r Lwfans Gofalwyr sydd ond yn £67.25 yr wythnos ar hyn o bryd[26] gael ei gynyddu ar frys.

**Gofal a llesiant**

Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys, am y tro cyntaf, egwyddor bod dyletswydd gan awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant gofalwyr o safbwynt corfforol, emosiynol a meddyliol. Hyd yn oed cyn argyfwng y coronafeirws, roedd y pwysau ariannol cynyddol ar gyllidebau lleol ym maes gofal cymdeithasol yn golygu bod llawer o ofalwyr wedi cael eu gadael heb gymorth. Y llynedd, dywedodd 1 o bob 8 gofalwr yn y Deyrnas Unedig eu bod nhw, neu'r rhai sy'n cael cymorth ganddynt, wedi derbyn llai o wasanaethau gofal neu gymorth yn ystod y flwyddyn flaenorol oherwydd gostyngiad mewn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol[27].

Mae pandemig y coronafeirws a'r mesurau i gyfyngu arno yn rhoi pwysau ychwanegol aruthrol ar ofalwyr sy'n golygu nid yn unig fod mwy o risg y byddant yn dal y feirws hwn, ond y bydd llawer ohonynt hefyd mewn perygl o gael eu gwthio ymhellach i dlodi. Mae angen i hyn newid: rhaid i'n gofalwyr ganolbwyntio ar ofalu, yn hytrach na chael trafferth talu biliau a rhoi bwyd ar y bwrdd. Mae Oxfam, a mwy na 100 o sefydliadau, undebau a melinau trafod gofal gwrth-dlodi a hawliau menywod - gan gynnwys mwy nag 20 yng Nghymru[28] - wedi annog gwleidyddion ledled Prydain i wneud mwy i amddiffyn gofalwyr rhag tlodi[29] trwy fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol a gwella nawdd cymdeithasol. Mae hwn, yn ogystal ag achub bywydau, yn brawf allweddol o'n hymateb.

'**Mae llawer** (o ofalwyr di-dâl) **yn teimlo wedi'u llethu ac yn bryderus iawn am sut y byddant yn dygymod yn yr wythnosau sydd o'u blaen. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys gofalwyr di-dâl yn eu cynlluniau er**

**mwyn sicrhau y gallant barhau i ofalu a chadw'n iach. Cyn y coronafeirws, roedd gwasanaethau gofal cymdeithasol eisoes yn brin ac roedd y teuluoedd a gâi gymorth yn bodloni trothwy uchel er mwyn cael unrhyw fath o ofal. Nawr, mae rhai o'r gwasanaethau hynny wedi diflannu ac mae gofalwyr di-dâl yn gorfod dygymod ar eu pen eu hunain',** Claire Morgan, Cyfarwyddwr, Gofalwyr Cymru[30].

Ni ddylai pobl fyth orfod byw mewn tlodi oherwydd eu gwaith gofalu. I wireddu hyn, mae'n rhaid i ni sicrhau bod pwysigrwydd gwaith gofal am dâl a di-dâl yn cael gwell cydnabyddiaeth a bod buddsoddiad iawn yn digwydd yn y sector gofal; bod gofalwyr di-dâl a gofalwyr am dâl yn cael llais wrth ddylunio a darparu polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywydau; bod gwaith gofal di-dâl trwm a beichus o ran amser yn cael ei leihau; a bod y cyfrifoldeb yn cael ei ailddosbarthu'n decach o fenywod i ddynion, a rhwng aelwydydd, llywodraethau a busnesau; a bod gofalwyr am dâl yn derbyn tâl priodol, gyda gofalwyr di-dâl yn cael eu hamddiffyn rhag tlodi. Os gwnawn y pethau hyn, gyda'n gilydd gallwn wneud i ofal gyfrif yng Nghymru.

**Gofalwyr di-dâl - heb eu gwerthfawrogi na'u cefnogi'n ddigonol**

Gall gofalu am anwylyn fod yn un o'r pethau mwyaf buddiol y gall unigolyn ei wneud. Roedd un gofalwr wedi disgrifio gofal i ni fel hyn:

**'Mynegiant o gariad, gwybod bod y sawl rydych chi'n gofalu amdano yn iawn.'** Gwneud i Ofal Gyfrif, Cymru, menyw[31].

Mae gofal yn cwmpasu mwy o lawer nag unrhyw wobr ariannol neu fel arall. Fodd bynnag, dywedodd gofalwyr hefyd wrthym pan nad yw gwaith gofal di-dâl yn cael ei gefnogi a'i werthfawrogi, yn rhy aml, mae'r effaith arnynt hwy a'u teuluoedd yn anweledig. Hyd yn oed cyn yr argyfwng, gwelwyd bod gwaith gofal di-dâl yn gysylltiedig â thlodi ar draws y byd. Un o achosion y cyswllt hwn rhwng gofal a thlodi yw bod gofalwyr di-dâl yn gallu colli incwm am fod rhaid iddynt adael gwaith am dâl neu leihau eu horiau gwaith er mwyn jyglo gofal di-dâl a gwaith am dâl. Amcangyfrifir bod 96% o'r holl ofal yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl, a bod llawer ohonynt yn ei chael yn anodd ac angen rhagor o gymorth arnynt[32]. Mae llu o ffactorau cymhleth wedi arwain at y ffigur hwn sydd mor uchel. Mae'r twf yn y boblogaeth o ofalwyr yn llawer mwy na'r twf yn y boblogaeth gyffredinol. Nid yn unig y mae mwy o bobl yn gofalu ond mae pobl yn gofalu am amser hirach. Wrth i boblogaeth Cymru barhau i heneiddio, ac wrth i gyllid awdurdodau lleol barhau i ddisgyn, mae teuluoedd yn cael eu gadael fwyfwy i lenwi'r bwlch[33]. Tybir yn aml, ac yn anghywir, fod gwaith gofal yn waith 'sgiliau isel', ac mae hyn yn cyfrannu at ddiffyg gwerthfawrogiad digonol ohono. Yn ychwanegol at y gofynion gofalu o ddydd i ddydd, mae cynifer o faterion cysylltiedig â bod yn ofalwr di-dâl yn effeithio ar y gofalwyr eu hunain - blinder, problemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gorbryder, wedi'u hynysu oddi wrth ffrindiau a theulu, a theimlad o golli hunaniaeth. Gall diffyg cymorth iawn arwain at broblemau ariannol hefyd, gyda llawer o ofalwyr yn torri i lawr ar eu horiau gwaith neu'n rhoi'r gorau i'w gwaith yn gyfan gwbl er mwyn rheoli eu cyfrifoldebau gofalu, gan roi eu dyfodol ariannol eu hunain yn y fantol[34]. Amcangyfrifir bod y gofal y mae gofalwyr di-dâl yn ei gynnig i economi Cymru yn werth £8.1 biliwn[35], ac mae cynifer â thri chwarter y gofalwyr yn dweud bod eu rôl wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl eu hunain[36]. Esboniodd Simon Hach, o Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, "Dydyn ni ddim yn darparu'r gofal o amgylch y gofalwr. Dydyn ni ddim yn darparu'r cymorth ymarferol. Er bod yr hawliau yno ac mae'r gyfraith yn bod i alluogi awdurdodau lleol a'r GIG i wneud hyn, 'does dim arian i gyd-fynd â'r gyfraith honno"[37].

Mae tystiolaeth Gofalwyr Cymru yn cynnig darlun siomedig, sef bod gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn methu â chael effaith wirioneddol ar fywydau digon o ofalwyr. Dangosodd ymchwil Gofalwyr Cymru fod pethau wedi gwaethygu mewn gwirionedd i lawer o ofalwyr dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i gyllidebau leihau ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol mewn termau real[38].

**Trafferthion cael dau ben llinyn ynghyd cyn y coronafeirws**

Cyn yr argyfwng, ymhlith y rhai a oedd yn darparu gofal i bobl ag anghenion ychwanegol yn y Deyrnas Unedig, dywedodd 39% eu bod yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd - mae'r ffigur hwn yn codi i 53% ymhlith y rhai a oedd yn derbyn Lwfans Gofalwr. Yn y cyfamser, roedd 68% o'r holl ofalwyr a 78% o ofalwyr a oedd yn ei chael yn anodd yn ariannol yn dweud eu bod yn defnyddio eu cynilion neu eu hincwm yn rheolaidd i dalu am yr hyn sydd ei angen er mwyn gofalu. Dywedodd tua 53% o ofalwyr a oedd heb ymddeol na allent gynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Rhwng 2017 a 2019, bu'n rhaid i bron hanner miliwn o ofalwyr adael cyflogaeth am dâl er mwyn gofalu am rywun[39]. Mae grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn llawer mwy tebygol o gael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd[40]. Nid yw'n iawn bod gofalwyr yn wynebu tlodi. Dengys ymchwil gan Oxfam Cymru fod 63% o bobl yng Nghymru yn credu y dylai pobl ar incwm isel sy'n gofalu am bobl sâl neu anabl dderbyn mwy o gymorth ariannol trwy daliadau nawdd cymdeithasol uwch[41].

Mae ymchwil Gofalwyr Cymru[42] yn dangos bod pedwar allan o bob pum gofalwr sy'n ei chael yn anodd yn ariannol (81%) wedi gorfod cyfyngu ar ddiddordebau a gweithgareddau hamdden, a bod 61% wedi cyfyngu ar weld teulu a ffrindiau. Mae 13% hyd yn oed wedi gorfod cyfyngu ar y gwasanaethau cymorth sy'n eu helpu i ofalu. Dywedodd 6% o ofalwyr sy'n ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd eu bod wedi defnyddio banciau bwyd ac mae 3% wedi defnyddio benthyciadau diwrnod talu.

**Gofalu trwy'r coronafeirws**

Ym Mehefin 2020, dywedodd Gofalwyr Cymru[43] fod bron 200,000 o bobl wedi dod yn ofalwyr di-dâl mewn mater o wythnosau, gan ofalu am berthnasau neu ffrindiau hŷn, anabl neu ddifrifol wael, o ganlyniad i'r pandemig. Mae hyn ar ben y 487,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru a oedd eisoes yn gofalu cyn y pandemig. Dengys data Gofalwyr Cymru fod 112,000 o fenywod (57%) ac 84,000 o ddynion (43%) wedi dechrau gofalu. Yn nodweddiadol, byddant wedi bod yn cynorthwyo anwyliaid o bell, yn helpu i siopa am fwyd, casglu meddyginiaeth, rheoli cyllid, a darparu sicrwydd a chymorth emosiynol. Bydd rhai wedi ymgymryd â rolau gofalu mwy dwys - gan helpu â gofal personol, symud o gwmpas y cartref, rhoi meddyginiaeth a pharatoi prydau bwyd. Mae 98,000 o bobl (50%) sydd wedi dechrau gofalu ers y pandemig hefyd yn jyglo gwaith am dâl ochr yn ochr â chyfrifoldebau gofalu.

Mae darpariaethau yn Neddf Coronafeirws y Deyrnas Unedig i lacio dyletswyddau gofal a chymorth awdurdodau lleol dros dro wedi dod i rym. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu nad oes dyletswydd ar awdurdodau lleol mwyach i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion, nac anghenion cymorth gofalwyr sy’n oedolion. Bellach, dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol lle mae rhywun yn cael neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso y bydd yn rhaid iddynt ddiwallu’r anghenion hyn. Mae hyn yn golygu y gellir lleihau pecynnau gofal a chymorth, a dod â rhai gwasanaethau i ben. Mae pryderon am y baich y mae hyn yn ei osod ar ofalwyr di-dâl, a hynny o bosibl ar yr union adeg y mae eu gwasanaethau cymorth eu hunain, fel gofal seibiant, yn diflannu[44].

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i arwain 'llywodraeth ffeministaidd' ac ers hynny, bu Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn olrhain y cynnydd tuag at y nod hwn trwy gyfrwng y Cerdyn Sgorio Ffeministaidd[45]. Mae'r adroddiad yn disgrifio dosbarthiad anwastad gofal di-dâl, a chroesawodd symudiad Llywodraeth Cymru i greu cynllun gofalwyr cenedlaethol newydd yn 2020, gydag ymrwymiad i ddefnyddio dull gweithredu rhyngblethol. Roedd y papur yn bwrw golau hefyd ar broblemau sy'n parhau o ran yr hawl i seibiant, gan amlygu problemau o ran hygyrchedd ac addasrwydd y ddarpariaeth. Er bod Llywodraeth Cymru yn rhoi £3 miliwn o gyllid cylchol i lywodraeth leol ar gyfer cymorth seibiant, nid yw'r cyllid hwn wedi'i glustnodi ac felly mae'n anodd monitro effeithiolrwydd y gwariant yn y maes hwn. Bu'r Cerdyn Sgorio yn ystyried y gweithlu gofal â thâl, gan amlygu bod dirfawr angen datblygu datrysiadau polisi sy'n cydnabod ac yn adlewyrchu gwir werth y sector. Cydnabu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gwmpasu Fforwm Gwaith Teg ym maes Gofal Cymdeithasol a dadleuodd fod angen buddsoddiad sylweddol yn y sector.

Mae'r gweithredu ar yr hawl i seibiant yn llai na'r hyn sydd ei angen, ac rydym yn cefnogi galwadau Gofalwyr Cymru am "gyllid a dewis o wasanaethau o ansawdd i alluogi gofalwyr i gael y seibiannau sydd eu hangen arnynt"[46]. Canfu'r ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr[47] y gall fod yn anodd cael mynediad i ofal seibiant, bod diffyg darpariaeth, a diffyg hyblygrwydd hefyd. Ers 2017-18, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn o gyllid cylchol i lywodraeth leol ar gyfer cymorth seibiant trwy'r Grant Cymorth Refeniw, ond nid yw'r arian hwn wedi'i glustnodi ac felly mae monitro a gwerthuso gwariant awdurdodau lleol ar seibiant yn hanfodol.

Mae'r pwysau ar ofalwyr di-dâl yn annioddefol. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Ofalwyr Cymru pan oedd pandemig y coronafeirws yn ei anterth yn dangos bod 77% o ofalwyr yng Nghymru wedi bod yn gorfod gwario mwy o arian yn ystod y pandemig. Mae'r prif gynnydd mewn gwariant yn cynnwys gwario mwy ar fwyd (69%) oherwydd diffyg slotiau dosbarthu gan yr archfarchnadoedd a'r angen am fwyd arbenigol, a biliau'r cartref (52%)[48]. Ledled y Deyrnas Unedig, roedd gofalwyr di-dâl ddwywaith mor debygol o fod wedi defnyddio banc bwyd yn ystod y cyfyngiadau symud [49].

**'Mae'n anodd egluro i bobl weithiau sut y mae angen cymorth arnyn nhw. Rydych chi'n ceisio egluro, ac fe welwch bobl yn rowlio'u llygaid yn eu pen wrth i chi geisio dweud wrthyn nhw, ac rwy'n meddwl "does gennych chi ddim diddordeb yn nac oes?" Felly buan mae rhywun yn dysgu dal yn ôl. Dydych chi ddim yn dweud pethau wrth bobl, am ei bod hi'n haws i chi fwrw ymlaen eich hun.'** Ymchwil Gofal Di-dâl, menyw, Cymru[50].

Mae'r Women's Budget Group yn disgrifio nawdd cymdeithasol fel 'un o elfennau sylfaenol economi ofalgar'[51]. Mae'n allweddol i fenywod, sy'n derbyn lefel uwch o'u hincwm drwyddo oherwydd eu rôl anghymesur fel gofalwyr ac enillwyr eilaidd. Ond eto, mae dadansoddiad o'r sefyllfa yn y Deyrnas Unedig yn awgrymu y bydd 59% o'r toriadau i nawdd cymdeithasol erbyn 2021-22 wedi 'dod o bwrs y fenyw'[52].Y prif hawl i nawdd i ofalwyr di-dâl ledled Prydain yw'r Lwfans Gofalwr sy'n £67.25 yr wythnos. Mae gofyn bod ymgeiswyr yn hŷn nag 16 oed, yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am rywun sy'n gymwys i gael budd-daliadau anabledd penodedig, ac yn ennill llai na £128 yr wythnos ar ôl talu treth, Yswiriant Gwladol a threuliau.

**Ai Incwm Sylfaenol i Bawb yw'r ateb?**

Cred nifer o sefydliadau y gallai Incwm Sylfaenol i Bawb helpu i ddiogelu gofalwyr di-dâl rhag tlodi, er bod gan eraill, gan gynnwys Sefydliad Joseph Rowntree, amheuon am ei fforddiadwyedd a'i effaith[53] ar leihau tlodi[54].

Byddai Incwm Sylfaenol i Bawb yn golygu bod pawb, neu'r mwyafrif helaeth o bobl[55], yn derbyn taliad rheolaidd, diamod, pa bynnag ffynonellau eraill o incwm sydd ganddynt. Mae'n ymagwedd a allai helpu i liniaru'r stigma sy'n gysylltiedig â hawlio budd-daliadau, ac mae'n cael ei chefnogi gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru[56], sy'n dadlau "ei bod hi'n bryd cael dull gweithredu newydd sy'n adlewyrchu ein heconomi gymhleth - un sy'n mynd ati ar frys i amddiffyn y miliynau o bobl sydd â dirfawr angen sicrwydd ariannol yn awr. […] Gallai'r arian gynorthwyo llawer o weithwyr hanfodol a gwirfoddolwyr er mwyn iddynt barhau â'u gwaith hollbwysig i gadw'r wlad i fynd - a gallai helpu i godi rhywfaint o'r pwysau ar aelwydydd sy'n cael trafferthion eithafol. […] Gwyddom mai tlodi yw gyrrwr mwyaf afiechyd. Mae arnom angen system sy'n cefnogi pob unigolyn trwy'r argyfwng hwn neu byddwn mewn perygl o ddwysáu ei effaith am flynyddoedd lawer. […] Os ydym am gael economi sy'n gweithio i bawb, a chymdeithas y gŵyr pawb eu bod yn rhanddeiliaid ynddi, mae'n bryd i wleidyddion droi eu sylw oddi wrth Gynnyrch Mewnwladol Crynswth a chanolbwyntio ar lesiant".

Mae camau ar droed i dreialu Incwm Sylfaenol i Bawb yng Nghymru, ond erys pryderon, o gofio: byddai'n anodd ei roi ar waith yng Nghymru, gan nad yw nawdd cymdeithasol wedi'i ddatganoli i raddau helaeth; byddai'n newid arwyddocaol mewn polisi ar gost aruthrol i'r pwrs cyhoeddus, sy'n beryglus gan nad yw wedi'i brofi ar raddfa; mae'n erfyn di-awch ac mae perygl y bydd yn atgyfnerthu normau o ran gwaith di-dâl. Beth bynnag fydd y dull gweithredu 'cyffredinol', mae mwy a mwy o'r farn fod angen rhwydweithiau diogelwch cymdeithasol cynhwysfawr a thrawsnewidiol o ran rhywedd sy'n amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, gan gynnwys gofalwyr, rhag cwympo i dlodi ar adeg o argyfwng. Mae'n bosibl y gallai Incwm Sylfaenol i Bawb gadarnhau cosb ar bobl sengl. Pe telid incwm ar gyfradd safonol i bob unigolyn, yna byddai gan bâr sy'n rhannu aelwyd fwy o arian i dalu eu rhent a'u costau byw hanfodol (yr un yw rhent tŷ â dwy ystafell wely p'un a oes pâr yn byw yno neu berson sengl). Nid oes fawr o dystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu y gallai Incwm Sylfaenol i Bawb gynyddu'r gwerth a roddir ar gadw llygad ar y naill a'r llall a gofalu am ein gilydd. I newid i'r cyfeiriad hwn, byddai system seiliedig ar werthoedd gwahanol yn golygu buddsoddi mewn mesurau sydd: yn galluogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i ofalu am y naill a'r llall; yn meithrin cysylltiadau rhwng pobl a chymunedau; yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cael eu cyllido'n dda i lenwi'r bylchau o ran anghenion cymorth; ac yn rhoi'r hyblygrwydd a'r dewis i bobl benderfynu ar y ffordd orau o ofalu am eu hanwyliaid ar wahanol adegau o fregusrwydd yn eu bywydau.

**Cydbwyso gwaith am dâl a gofalu**

Mae hawliau cyflogaeth yn faterion a gedwir yn ôl ar gyfer San Steffan, ond mae gan Lywodraeth Cymru rôl sylweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod gwaith am dâl yn cynnig llwybr dibynadwy i ofalwyr allan o dlodi. Rhaid i'r rôl hon, mewn partneriaeth â busnesau, sicrhau bod gofalwyr yn cael cymorth yn eu gwaith am dâl. Lansiwyd y cynllun 'Cyflogwyr i Ofalwyr'[57] yn 2009 fel fforwm aelodaeth i gyflogwyr. Ei ddiben yw sicrhau bod cyflogwyr yn cael cymorth i gadw a rheoli gweithwyr â chyfrifoldebau gofalu. Ym Mehefin 2019, ffurfiwyd Hwb Cyflogwyr i Ofalwyr Cymru er mwyn sicrhau bod ffocws ar gynorthwyo cyflogwyr o Gymru ac yng Nghymru sydd â gofalwyr yn eu gweithluoedd. Dangosodd arolwg barn gan YouGov[58] ar ran Carers UK ar ddiwedd 2018 fod mwy a mwy o bobl yn jyglo gwaith am dâl a rôl ofalu ddi-dâl; gyda 223,000 o weithwyr yng Nghymru yn nodi eu bod yn ofalwyr; mae hyn yn gyfystyr â bod gan 1 o bob 7 o'r gweithlu gyfrifoldebau gofalu hefyd.

**'Mae'n rhaid i mi weithio i ennill arian ond nid yw fy mòs i'n deall o gwbl. Rwy wedi cymryd absenoldeb salwch ac mae arna i ofn cymryd rhagor nawr'**, gofalwr di-dâl, Cymru[59].

Yng Nghymru, mae 6% o ofalwyr di-dâl wedi rhoi'r gorau i'w gwaith er mwyn gofalu, ac mae 3% wedi lleihau eu horiau gwaith - mae hyn yn cyfateb i 149,812 o bobl yng Nghymru sydd wedi rhoi'r gorau i weithio er mwyn

darparu gofal di-dâl a 74,906 o bobl sydd wedi lleihau eu horiau gwaith i sail ran-amser oherwydd gofal di-dâl[60]. Dywedodd 7% fod darparu gofal di-dâl wedi cael effaith negyddol ar eu gwaith[61].

**Jyglo gofal plant a gwaith am dâl**

Gall mynediad at waith boddhaol am dâl helpu i godi'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant allan o dlodi, a gwella eu hansawdd bywyd. Ledled y Deyrnas Unedig, mae risg tlodi aelwyd yn lleihau wrth i oriau gwaith am dâl gynyddu[62]. Un o'r materion allweddol i bobl â chyfrifoldebau gofal plant yw lefel y disgwyliad eu bod yn gwneud gwaith am dâl ac yn gallu cael mynediad at ofal plant hyblyg a fforddiadwy ar yr un pryd. Darganfu'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (CPAG) fod agweddau at gyflogaeth rhieni a'r penderfyniadau y mae unigolion yn eu gwneud yn gymhleth ac yn adlewyrchu gwerthoedd diwylliannol dwfn; dewisiadau unigol; tybiaethau ynghylch dyraniad llafur rhwng y rhywiau; ffurf y system dreth a'r system fudd-daliadau; polisïau absenoldeb rhiant mewn gweithleoedd; a'r gwirioneddau economaidd sy'n wynebu aelwydydd unigol[63].

Dywedodd y menywod a holwyd gan CPAG eu bod yn teimlo iddynt gael eu gorfodi i fod yn famau sy'n aros gartref, pan fyddai'n well ganddynt gael eu cyflogi y tu allan i'r cartref[64]. Mae cael eu gwthio i anweithgarwch economaidd yn arbennig o niweidiol i unig rieni a theuluoedd ar incwm isel, gan fod amodau ynghlwm wrth eu budd-daliadau a pherygl posibl y byddant yn wynebu sancsiynau a'r cap ar fudd-daliadau. Mae'r pandemig wedi gadael y sector gofal plant mewn cyflwr bregus[65], sy'n golygu y gall nifer sylweddol o rieni gael eu gadael heb y gofal plant sydd eu hangen arnynt i wneud gwaith am dâl.

Rhoddodd Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2020 Oxfam Cymru a'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod sgôr 'melyn' i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ym maes gofal i gydnabod bod rhai camau wedi'u cymryd yn y maes hwn. Cydnabu'r adroddiad y cynnydd a wnaed trwy'r Cynnig Gofal Plant, ond tynnodd sylw at faterion parhaus yng nghyswllt y dryswch ynghylch gweithrediad y cynllun sy'n arwain at filiau gofal plant annisgwyl, a'r angen am ehangu'r cynnig i gynnwys plant chwe mis oed ac i fyny, a rhieni nad ydynt yn gweithio - gan adleisio syniadau'r Comisiynydd Plant a bwysleisiodd fanteision hirdymor darparu gofal blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel ar gyfer plant o'r cefndiroedd tlotaf.

Canfu Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod strwythurau anhyblyg yn y gweithle, rhagdybiaethau ar sail rhywedd ynghylch gofal plant, a gwahaniaethu eang yn golygu bod mamau yn fwy tebygol o gael eu dal mewn swyddi rhan-amser ar gyflogau isel gyda llai o gyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa[66]. Yn 2019, nid oedd gan 35.5% o bobl yng Nghymru gyflogaeth o ansawdd da[67]. Er mwyn mynd i'r afael â thlodi rhieni, a thlodi plant o ganlyniad i hynny, mae gofyn cymryd nifer o gamau, gan gynnwys: ehangu mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd da; gwella ansawdd gwaith; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y farchnad lafur, gan gynnwys y bwlch cyflog rhwng y rhywiau; rhoi hwb i hawliau absenoldeb rhiant; a darparu rhwydwaith diogelwch cymdeithasol effeithiol i bawb y mae ei angen arnynt. Fodd bynnag, mae gofyn gweithredu hefyd i herio normau cymdeithasol dwfn, gan ailddosbarthu cyfrifoldebau gofal plant o fenywod i ddynion er mwyn i fenywod gael dewisiadau ystyrlon o ran chwilio am gyflogaeth. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn tynnu sylw at y ffaith fod cyfranogiad menywod yn y farchnad lafur ffurfiol wedi cynyddu ond eto 'nid yw cyfraniad dynion at ofal plant wedi cynyddu ar yr un raddfa'[68]. Mae'r Comisiwn yn amlygu pwysigrwydd bod dynion yn derbyn mwy o gyfrifoldebau gofalu ac yn dod i'r casgliad bod dau ffactor fel petaent yn annog dynion i ofalu am blant ac yn lleihau'r effaith y mae bod yn unig ofalwr yn ei chael ar yrfaoedd menywod: y cyntaf o'r rhain yw absenoldeb tadolaeth â thâl sy'n fwy hael - gan gydraddoli absenoldeb rhiant, a'r ail yw gofal plant mwy fforddiadwy.

Mae gwaith am dâl yn dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol i lawer o bobl sydd â chyfrifoldebau gofal plant er bod hynny'n aml yn methu â'u hamddiffyn rhag tlodi. Un ffordd o helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn yw rhoi hwb i fforddiadwyedd, hwylustod a hyblygrwydd gofal plant er mwyn sicrhau bod rhieni'n cael cymorth i gael gwaith am dâl - a bod digon o incwm ar ôl ganddynt ar ôl talu am ofal plant. Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu bod rhieni yn y Deyrnas Unedig nid yn unig yn talu'r costau gofal plant uchaf yn Ewrop, ond hefyd yr ail gostau uchaf yn y byd[69]. Mae rhai agweddau ar y system nawdd cymdeithasol yn ceisio ad-dalu rhai costau gofal plant i deuluoedd incwm isel, gan ymgorffori hynny yn 'elfen plentyn' Credyd Cynhwysol. Mae diffyg mynediad at ofal plant fforddiadwy yn parhau i fod yn brif rwystr rhag gwaith i'r rhan fwyaf o famau.

**Cynnig Gofal Plant Cymru**

Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn gam cadarnhaol, ond ar ei ffurf bresennol, mae'n annhebygol o wireddu ei nod o gynyddu cyflogaeth ymhlith mamau yn y ffordd fwyaf effeithiol oherwydd bydd y rhan fwyaf o fenywod yn dal i fod allan o waith (neu â mynediad cyfyngedig at waith) am dair blynedd a bydd niwed sylweddol wedi'i wneud yn barod o ran cyflog, datblygiad, hyder a sgiliau erbyn hynny. Roedd dadansoddiad ar ran Oxfam Cymru gan y Dr Claire Evans yn argymell ymestyn y ddarpariaeth gofal plant am ddim ar gyfer plant dan 3 oed i gwmpasu rhieni incwm isel[70]. Roedd ei dadansoddiad hefyd yn cydnabod bod angen gofal plant fforddiadwy o ansawdd da sy'n adlewyrchu'r oriau annodweddiadol y mae patrymau gwaith anhraddodiadol yn eu gorfodi ar fenywod, a'r angen am gyllido modelau newydd o ofal plant, er enghraifft, mentrau cydweithredol gweithwyr y gellid eu sefydlu mewn gweithle, canolfan addysg neu ystadau tai. Mae'r Women's Buget Group hefyd wedi darparu dadansoddiad manwl o gostau gofal plant i bawb[71]. Gallwn ddysgu llawer o lwyddiannau rhyngwladol yn y maes hwn. Cyflwynodd talaith Quebec ofal plant rhatach i bawb yn 1996, yn seiliedig ar rai rhagosodiadau sylfaenol, sef: pe bai'r llywodraeth yn helpu i wneud gofal plant yn hygyrch ac yn fforddiadwy, byddai hynny'n caniatáu i fwy o fenywod ymuno â'r gweithlu, yn gwella datblygiad plant a sgiliau cymdeithasol ac, yn y pen draw, yn cynhyrchu refeniw i'r llywodraeth trwy'r cynnydd mewn trethi cyflogres. Barnwyd bod y cynllun yn llwyddiant yng nghyswllt o leiaf ddau o'r amcanion hyn[72].

**"Mae darparu gofal plant am ddim yn gwbl angenrheidiol os ydym am gael menywod i ddychwelyd i'r gwaith",** Alex Davies-Jones Aelod Seneddol[73].

Yn ystod cyfnod cyfyngiadau symud y coronafeirws, mae'n debyg bod cau ysgolion a chanolfannau gofal plant wedi cael effaith anghymesur ar fenywod. Roedd yn fwy tebygol o effeithio ar rieni sengl, y mae 90% ohonynt yn fenywod ac roedd 44% o rieni sengl eisoes yn byw mewn tlodi cyn y pandemig[74]. Darganfu ymchwil gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru fod gweithwyr allweddol, y mae 68% ohonynt yn fenywod, yn wynebu heriau gofal plant sylweddol - mae gan eu hanner blant oedran ysgol, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol na gweithwyr eraill o fod â phlant iau o dan 4 oed[75]. Mae ar fenywod yng Nghymru angen darpariaeth gofal plant sy'n cynnig gofal plant fforddiadwy, hygyrch, o ansawdd uchel i bob plentyn o chwe mis oed ymlaen, yn debyg i'r darpariaethau a gynigiwyd i weithwyr allweddol pan oedd pandemig y coronafeirws yn ei anterth, beth bynnag yw statws cyflogaeth rhieni[76].

Rhan o'r darlun sy'n cael ei hanwybyddu yn aml yw gofal plant ar gyfer plant dros bump oed. Mae gofal 'cofleidiol' a darpariaeth yn ystod y gwyliau ysgol yn allweddol - yn enwedig i unig rieni allu aros yn y farchnad lafur. Mae CPAG yn ymchwilio i'r syniad o 'ysgolion estynedig'[77] - sy'n cyfeirio at wasanaethau wedi'u darparu gan ysgolion sy'n mynd y tu hwnt i swyddogaeth graidd addysg plant yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y diwrnod ysgol arferol. Mae hyn yn cynnwys gofal plant cyn ac ar ôl ysgol, a darpariaeth gofal plant/chwarae yn ystod y gwyliau. Ym mis

Gorffennaf 2020, dywedodd gweithwyr allweddol yng Nghymru eu bod yn cael trafferth cael hyd i ofal plant gan fod yr hybiau ysgol wedi cau dros wyliau'r haf. Dim ond pedwar[78] o'r 22 awdurdod lleol a ddywedodd y byddent yn parhau i gynnig gofal i blant oedran ysgol mewn hybiau[79].

**"Roeddwn i'n meddwl 'beth wnaf i?' Heb ofal plant, fyddwn i ddim wedi gallu gweithio a byddai hynny wedi cael effaith aruthrol ar fywyd ein teulu a'n cyllid, ein morgais, popeth",** mam i ddau o blant o Hwlffordd[80].

I deuluoedd, wrth gwrs mae'n stori fwy cymhleth na datrys gofal plant. Mae casgliad o gymorth ar gael, ond nid yw gofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl yn cael budd ohono bob amser, er enghraifft, ni fydd llawer o ofalwyr sydd â phartneriaid sy'n gweithio yn gallu cael prydau ysgol am ddim na'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, am eu bod nhw'n ennill mwy na'r trothwy sy'n £7,400[81].

**Gweithwyr gofal cymdeithasol - heb eu gwerthfawrogi na'u talu'n ddigonol**

**'Ein staff yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yw ein hased pennaf'**, Maniffesto Arweinyddiaeth Mark Drakeford[82]

Yn aml, disgrifir gwaith am dâl fel yr amddiffyniad gorau rhag tlodi - ond nid yw hynny'n wir i weithwyr gofal. Mae 113,000 o bobl yn y sector gofal cymdeithasol[83] ar hyn o bryd, ac i ddarparu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a gweithlu cymharol hŷn, mae ymdrechion ar droed i recriwtio 20,000 o weithwyr gofal cymdeithasol ychwanegol erbyn 2030[84]. Mae darparu gofal am dâl yn gysylltiedig ag incwm isel, amodau gwaith gwael a diffyg grym[85]. Mae gweithwyr gofal yn llawer mwy tebygol o fod â mathau ansicr o gyflogaeth[86]. Mae ymchwil gan Oxfam Cymru yn dangos bod 69% o bobl yng Nghymru o'r farn nad yw gweithwyr gofal yn cael tâl digonol[87]. Gall yr amodau tâl gwael hyn olygu bod gweithwyr a'u teuluoedd yn wynebu ansicrwydd ariannol, sy'n gallu effeithio ar eu llesiant corfforol, emosiynol a chymdeithasol[88]. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cyfyngu ar ddefnyddio contractau dim oriau ar gyfer gweithwyr gofal cartref yn 2018[89], mae tâl ac amodau gwael yn parhau yn y sector. Roedd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Oxfam Cymru a'i gyflawni gan Chwarae Teg[90] cyn pandemig y coronafeirws yn dangos gwir effaith hirdymor cyflogau isel yn y sector gofal. Dywedodd un gweithiwr gofal nad oedd ei hincwm yn ddigon ar gyfer ei gwariant sylfaenol. Adlewyrchwyd y pryderon hefyd mewn sgyrsiau gyda chynrychiolwyr undebau llafur:

**'Roeddwn i yn un o'm cartrefi gofal yr wythnos diwethaf a bûm i'n siarad â grŵp o fenywod a dywedodd un ohonynt, 'Rydw i wedi bod heb wres a dŵr poeth ers tair blynedd, dydw i ddim yn gallu fforddio trwsio'r bwyler' ... ac roedd menyw arall yn dweud wrthyf ei bod hi wedi gorfod gwerthu ei thŷ a symud yn ôl i fyw gyda'i mam a'i thad".** Aeth ymlaen i ddweud: **"Maen nhw i gyd yn defnyddio banciau bwyd. Dydw i erioed wedi clywed y fath beth! Yn 2017, mae ein haelodau ni'n defnyddio banciau bwyd ... ac maen nhw'n bobl sy'n gweithio. Dydyn nhw ddim yn rhai sy'n hawlio budd-daliadau yn eu bywyd pob dydd. Mae'r rhain yn bobl sy'n gweithio, swyddi llawn-amser, dwy swydd weithiau ac maen nhw'n dal i fethu darparu ar gyfer eu teuluoedd.'** Cynrychiolydd undeb llafur[91]

Dangosodd gwaith ymchwil gan Gymdeithas Fawcett ym Mai 2020 fod 72% o bobl yn y Deyrnas Unedig o'r farn nad yw gweithwyr gofal yn cael cyflog digonol; mae tri pherson allan o bedwar yn cefnogi talu Cyflog Byw go iawn i ofalwyr; ac mae 65% o bobl yn cytuno y dylid cynyddu treth incwm er mwyn cyllido codiad cyflog i weithwyr gofal'[92]. Ar gyfer menywod ar gyflogau is, y peth pwysig yw cynyddu eu cyfradd cyflog fesul awr. Petai pob menyw yn derbyn y Cyflog Byw go iawn, byddai 172,000 o fenywod ledled Cymru yn well eu byd[93]. Byddai rhoi hwb i

gyfraddau isafswm statudol neu wirfoddol yn gwneud llawer mwy i gynyddu eu henillion nag y byddai cau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn unig, sy'n gymharol fach ymhlith gweithwyr ar gyflogau isel[94].

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol gwerth £40 miliwn i gynorthwyo darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion, ac ym Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru daliad ychwanegol o £500 i bob gweithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru[95], fel cydnabyddiaeth i weithlu nad yw'n cael ei weld na'i werthfawrogi yn aml (er nad oedd gweithwyr gofal cymdeithasol wedi derbyn y taliad hwn erbyn Gorffennaf 2020[96]), ac mae'n parhau i gyfyngu ar ddefnyddio contractau dim oriau mewn gofal cartref[97]. Er bod y camau hyn i'w croesawu, mae angen gwneud mwy. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar ehangu cynllun i gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol[98], sydd "yn gam arall yn y gwaith o ddatblygu ein hymrwymiad i wella proffil y sector, gan y bydd yn pwysleisio i'r cyhoedd bod gennym weithlu medrus ac ymroddedig." Yn ei faniffesto ar gyfer yr arweinyddiaeth, ymrwymodd Prif Weinidog Cymru i ddefnyddio grym caffael a buddsoddiad cyhoeddus i sicrhau gwasanaethau o safon, er enghraifft, yn y sector gofal, trwy gysylltu'r buddsoddiad hwnnw â chyflog teg a datblygiad gyrfa[99].

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i ganolbwyntiau ar ddulliau o wella telerau ac amodau'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol. Archwiliwyd dewisiadau ar gyfer cyllido'r rhain hefyd, gan gynnwys ardoll gofal cymdeithasol gan ddefnyddio pwerau codi treth a ddirprwywyd[100], dull sy'n cyd-fynd â barn y cyhoedd ledled y Deyrnas Unedig, lle mae dwy ran o dair o'r boblogaeth bellach yn cefnogi cynyddu treth incwm i gyllido codiad cyflog i weithwyr gofal[101]. Mae angen dybryd am yr arian hwn mewn sector sy'n dioddef yn sgil tanfuddsoddi difrifol. Rhaid i unrhyw dreth gael ei dylunio'n deg, gyda'r rhai mwyaf abl i dalu yn dwyn y baich mwyaf. Dylai pob plaid yng Nghymru gynnwys ardoll gofal cymdeithasol deg yn eu maniffestos ar gyfer yr etholiad nesaf, er mwyn cyllido gofal cymdeithasol yn briodol.

Argymhellodd Comisiwn Gwaith Teg Llywodraeth Cymru fod Fforwm Gwaith Teg ynghylch Gofal Cymdeithasol[102] yn cael ei sefydlu, ac mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfarfod â'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, Gofal Cymdeithasol Cymru a Fforwm Gofal Cymru, undebau llafur a rhanddeiliaid eraill i drafod sefydlu'r corff hwn. Disgwylir i'r gwaith hwn ailddechrau unwaith y bydd Llywodraeth Cymru yn symud y tu hwnt i'w chyfnod ymateb brys i COVID-19. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio manylion yr ymgynghoriad ynghylch y Bil Partneriaeth Gymdeithasol, a dechrau'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae'r camau hyn i gyd i'w croesawu. Fodd bynnag, nid ydynt yn ateb graddfa'r problemau.

Bu gweithwyr gofal cymdeithasol yn mynd uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswydd ers blynyddoedd, ac mae pandemig y coronafeirws yn debyg yn hyn o beth. Mewn blog ar gyfer Sefydliad Bevan, mae Unsain Cymru yn disgrifio enghraifft o Bowys:

**'Yn rhyfeddol, ar ddechrau'r pandemig, cytunodd un o weithwyr gofal Powys i hunanynysu am bythefnos gyda'r unigolyn yr oedd yn ei helpu pan gafodd yntau symptomau COVID-19. Yn ddi-gŵyn, casglodd ei phethau ac aeth i aros gydag ef. Yn ystod y cyfnod hwn, dysgodd sgiliau newydd iddo yn y gegin ac yn yr ardd. Bu cyd-weithwyr yn eu ffonio'n ddyddiol ac yn gadael bwyd, tretiau, negeseuon, gemau a DVDs ar garreg y drws i gynnal eu hysbryd. Cafodd y gweithiwr cymorth amser o'r gwaith ar ôl ei chyfnod ynysu a phan aeth yn ôl at y cleient, roedd yntau'n llawn cyffro'.** Blog Sefydliad Bevan[103].

Bu cartrefi gofal yn rhan ganolog o'r ymateb i'r coronafeirws, ac mae arweinwyr gofal wedi beirniadu'r llywodraeth am benderfyniadau a oedd 'yn dameidiog ar y gorau ac ar ei waethaf yn draed moch'[104]. Mae Cadeirydd Fforwm Gofal Cymru, Mario Kreft, wedi dadlau bod angen i'r sector gofal yng Nghymru gael ei ddiwygio ar frys.

**Ni fydd neb yn ddiogel rhag y coronafeirws nes bod pawb yn ddiogel rhagddo - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

O Borthcawl i Brestatyn, mae pobl yn poeni am yr hyn y mae'r coronafeirws yn ei olygu i ni, i'n hanwyliaid ac i'n cymunedau. Fodd bynnag, ni fydd neb yn ddiogel nes bod pawb yn ddiogel. Felly, mae'n bwysig cydnabod bod hwn yn argyfwng byd-eang sy'n gofyn am ymateb byd-eang. Nid yw pob gwlad mor gydnerth â'i gilydd, gyda 736 miliwn o bobl yn byw mewn tlodi eithafol[105] a mwy na 2 biliwn o bobl yn wynebu'r pandemig hwn heb fynediad at ddŵr glân hyd yn oed[106]. Y tu hwnt i'r peryglon amlwg presennol i iechyd cyhoeddus, heb gymryd camau, bydd canlyniadau'r pandemig hwn o ran lefelau tlodi yn debygol o fod yn ddifrifol a phara am amser hir - gyda gofalwyr yn cael eu taro'n galed. Mae gwaith dadansoddi yn dangos y gallai'r argyfwng economaidd a achosir gan y coronafeirws wthio mwy na hanner biliwn o bobl i mewn i dlodi, wrth i lywodraethau gau economïau cyfain i lawr er mwyn rheoli lledaeniad y feirws. Gallai tlodi byd-eang gynyddu am y tro cyntaf ers 1990. Yn dibynnu ar y trothwy tlodi a ddefnyddir, gallai hynny olygu bod y frwydr yn erbyn tlodi yn cael ei oedi gan ddegawd, a chymaint â 30 mlynedd mewn ardaloedd sy'n cynnwys Affrica is-Sahara a'r Dwyrain Canol a Gogledd Affrica[107]. Gallai mwy na hanner poblogaeth y byd fod yn byw mewn tlodi yn sgil y pandemig. Credir y gallai'r coronafeirws orfodi menywod i fyw mewn tlodi am ddegawdau[108].

Mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio'i bwriad i wneud Cymru yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang[109], ac yn 'genedl sydd, wrth weithredu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fydd gwneud y fath beth yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang'. Mae argyfwng y coronafeirws yn digwydd yr ochr draw i Glawdd Offa hefyd, a dylai Cymru chwarae'i rhan yn yr ymateb byd-eang. Wrth i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i feithrin ei henw da fel 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang', dylai dalu sylw dyledus i'r dadansoddiad a ddarperir yn y papur hwn er mwyn llywio'i phrosiectau partneriaeth mewn gwledydd tramor, yn ogystal ag yma yng Nghymru. Mae diffyg gwerthfawrogiad o waith gofal yn broblem fyd-eang, a dylai gwaith rhaglenni yn y dyfodol a gyflawnir, er enghraifft, drwy raglen 'Cymru ac Affrica' Llywodraeth Cymru, geisio mynd i'r afael â'r heriau hyn.

**Adferiad cyfiawn, gwyrdd a gofalgar**

Wrth i lywodraethau o gwmpas y byd geisio adferiad, mae cyfle hanesyddol i ni gyflawni adferiad ffeministaidd. Gan ystyried Canada fel enghraifft, mae YWCA Canada wedi lansio cynllun 'Feminist Recovery Plan for Canada: Making the Economy Work for Everyone[110]. Mae'r wyth pwynt yn y cynllun yn mapio'r ffordd i roi sylw i'r isafbwyntiau economaidd dirdynnol o oes y Dirwasgiad, a gwella sicrwydd economaidd. Mae'r wyth colofn yn y cynllun yn cynnwys: rhyngblethedd - deall grym; mynd i'r afael ag achosion gwaelodol hiliaeth; mae gwaith gofalu yn waith hanfodol; buddsoddi mewn swyddi da; ymladd yn erbyn y pandemig cysgodol; rhoi hwb i fusnesau bach; cryfhau seilwaith ar gyfer adferiad; a lleisiau amrywiol mewn penderfyniadau.

O gwmpas y byd ac yma yng Nghymru, mae gwledydd yn dechrau rhoi cynlluniau adfer ar waith, ac ni all y gymuned fyd-eang fforddio rhagor o fesurau cyni sy'n tanseilio ac yn dibrisio sectorau sy'n gysylltiedig â gofal, megis addysg ac iechyd, a llwytho'r cyfrifoldebau ar fenywod, yn enwedig y menywod mwyaf agored i niwed sydd

ar gyrion cymdeithas. Dylai gwaith gofal fod wrth wraidd yr holl bolisïau a phenderfyniadau sy'n llywio ein dyfodol ffeministaidd yn ystod ac ar ôl y pandemig. Yn y cyd-destun hwn, mae'r 3Rs Framework on Care a ddatblygwyd gan yr economegydd ffeministaidd Diane Elson[111] a gafodd ei ehangu gan Oxfam ac eraill cyn yr argyfwng i gynnwys 4R, yn dadlau y dylem[112]: **Cydnabod** bod gwaith gofal di-dâl ac am gyflog isel, sy'n cael ei wneud yn bennaf gan fenywod a merched, yn fath o waith neu gynhyrchu sydd â gwerth gwirioneddol; **Lleihau** cyfanswm yr oriau a dreulir yn cyflawni tasgau gofal di-dâl trwy ddarparu gwell mynediad at ddyfeisiau arbed amser fforddiadwy o ansawdd da a seilwaith sy'n cefnogi gofal; **Ailddosbarthu** gwaith gofal di-dâl yn decach ar yr aelwyd ac ar yr un pryd symud cyfrifoldebau am waith gofal di-dâl i'r wladwriaeth ac i'r sector preifat; a **Chynrychioli** darparwyr gofal, yn enwedig y rhai sydd fwyaf ar y cyrion, a sicrhau bod ganddynt lais ynghylch dylunio a darparu'r polisïau, y gwasanaethau a'r system sy'n effeithio ar eu bywydau. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu yn awr i amddiffyn gofalwyr rhag argyfwng tlodi sy'n tyfu.

**'Felly bydd hynny'n golygu gwneud penderfyniadau anodd am y mathau o ddiwydiannau y gall Llywodraeth Cymru eu cefnogi ag adnoddau prin. Rhan greiddiol o hynny yw gwir werthfawrogi gofal, ac yn enwedig gofal di-dâl, gwaith menywod y gwyddom ac y gwelsom yn glir iawn ei fod yn gwbl angenrheidiol, nid yn unig i'r economi, ond hefyd i'n hiechyd a'n lles',** Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg[113].

Mae'n rhaid i ni geisio adferiad cyfiawn, gwyrdd, ffeministaidd a gofalgar. Wrth i ni ailadeiladu'n well, mae cyfle i ni bwyso a mesur ac ailwerthuso ein dull o drefnu cymdeithas, a'n ffordd o fesur 'llwyddiant'. Mae model 'Toesen Economaidd' Oxfam[114], a ddatblygwyd o waith Kate Raworth, yn rhoi fframwaith cysyniadol i ni i'n helpu i ddwyn pryderon mwyaf ein byd ynghyd, sef cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Dylem ddefnyddio'r cyfle hwn i asesu teilyngdod dulliau gweithredu newydd, er enghraifft, mabwysiadu diffiniad ehangach o 'lwyddiant' mewn strategaethau economaidd, er mwyn mesur ansawdd cyflogaeth ochr yn ochr â dulliau mesur mwy traddodiadol, fel gwerth ychwanegol gros. Mae'r dull gweithredu hwn yn cyd-fynd â meddylfryd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gan symud ein sylw tuag at 'economeg llesiant'[115].

**Argymhellion**

Er mwyn helpu i wneud i ofal gyfrif, dylai Llywodraeth Cymru:

1. Flaenoriaethu buddsoddiad yn y sector gofal fel ateb carbon isel, cyfiawn â'r rhywiau ar gyfer creu swyddi ac adferiad economaidd gwyrdd, gan roi pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu wrth wraidd yr adferiad[116] yng Nghymru, a sicrhau na chaiff yr un gofalwr ei adael mewn tlodi.
2. Cydnabod bod gwaith gofal â thâl a heb dâl yn waith medrus ac yn werthfawr i'n llesiant cymdeithasol ac economaidd torfol. Dylai gyflwyno newid sylweddol yn y modd y gwerthfawrogwn ofal trwy ymgorffori'r persbectif hwn, a lleisiau a phrofiadau pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r bobl y maent yn eu helpu, ym mhob maes polisi.

Er mwyn cynorthwyo gofalwyr di-dâl sy'n gofalu am bobl sâl neu bobl ag anghenion ychwanegol, dylai Llywodraeth Cymru:

3. Ei gwneud yn haws i ofalwyr di-dâl adael tlodi trwy gael a chadw cyflogaeth â thâl, trwy gynyddu'r disgwyliadau y bydd cyflogwyr yn darparu amgylchedd cefnogol fel rhan o'r ymrwymiad i 'Waith Teg', gan atgyfnerthu cynlluniau achredu gwirfoddol, a phennu bod mynediad at arian cyhoeddus yn amodol ar gynnydd tuag at gyflawni hynny.

4. Monitro gwariant awdurdodau lleol ar ofal seibiant a gwerthuso effeithiolrwydd y cymorth.
5. Sicrhau bod lleisiau gofalwyr wrth wraidd cynlluniau ac atebion adfer.
6. Cyflymu datblygiad ei Chynllun Gweithredu ar gyfer Gofalwyr[117].

Er mwyn cefnogi teuluoedd incwm isel, ochr yn ochr â phawb sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi, dylai Llywodraeth Cymru:

7. Gynorthwyo'r rhai sy'n gofalu am blant i gael a chadw gwaith boddhaol trwy hybu mynediad at ofal plant sy’n hygyrch a hyblyg, o ansawdd uchel ac yn derbyn arian cyhoeddus, i blant chwe mis oed ac i fyny (gan gynnwys plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol), ar gyfer pob rhiant, gan gynnwys rhieni nad ydynt yn gweithio[118].
8. Casglu data cadarn am gydraddoldeb yn rhan o werthuso a monitro'r Cynnig Gofal Plant er mwyn sicrhau mynediad a chymhwystra cyfartal[119].
9. Sicrhau bod y rhai sy'n jyglo gwaith â thâl a gwaith di-dâl yn gallu rhoi gofal o ansawdd da i'w plant a'u teuluoedd ac osgoi tlodi trwy wella ansawdd gwaith, trwy hwyluso argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg, a sicrhau bod cymorth estynedig i bobl â chyfrifoldebau gofal plant yn un o amodau derbyn arian cyhoeddus.
10. Lleddfu argyfyngau incwm ar unwaith trwy wella cymorth ariannol mewn argyfwng, er enghraifft, trwy adolygu meini prawf y Gronfa Cymorth Dewisol.

I ddiogelu gofalwyr am dâl rhag tlodi, a chynyddu'r cymorth i ofalwyr di-dâl, dylai Llywodraeth Cymru:

11. Godi mwy a mwy o refeniw newydd, er enghraifft trwy ardoll gofal cymdeithasol Cymru, a defnyddio hwnnw i roi hwb sylweddol i'r sector er mwyn amddiffyn gweithwyr gofal am dâl ac ysgafnhau'r pwysau ar ofalwyr di-dâl.
12. Hwyluso argymhelliad y Comisiwn Gwaith Teg ynghylch sefydlu Fforwm Gwaith Teg sy'n canolbwyntio ar ofal cymdeithasol, gan sicrhau bod lleisiau gofalwyr wrth wraidd y gwaith hwn.
13. Darparu buddsoddiad ychwanegol a gwneud caffael cyhoeddus yn ddibynnol ar dalu'r hyn sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw go iawn[120] o leiaf i weithwyr gofal cymdeithasol, a thalu costau ychwanegol, er enghraifft, dylid talu costau teithio a chyfarpar diogelu personol fel na fydd costau eraill yn tanseilio cyflogau.
14. Gweithio gydag awdurdodau lleol i fynnu bod pob cwmni sy'n cyflwyno cynigion i gyflawni contractau gofal yn gwneud hynny ar sail casgliad cytunedig o delerau ac amodau (gan gynnwys y Cyflog Byw go iawn), i atal cwmnïau rhag gwasgu telerau ac amodau er mwyn cynnig pris is.

**Casgliad**

Mae'r rhai sy'n darparu gofal yng Nghymru, boed am dâl neu'n ddi-dâl, yn gwneud hynny am fwy na'r wobr ariannol a dderbyniant. Fodd bynnag, nid yw'n dderbyniol bod pobl sy'n darparu gofal sy'n cynnal bywyd yn byw mewn tlodi. Mae'r papur briffio hwn wedi dangos yn glir bod gofalu, yn rhy aml, wedi'i gysylltu’n agos â thlodi. Er bod y cynnwys a'r atebion yn amrywio ar gyfer pobl sy'n darparu gwahanol fathau o ofal, mae dau wirionedd sylfaenol: nid oes un math o ofal yn cael ei werthfawrogi'n ddigonol, ac mae'r effaith fwyaf ar fenywod. Rhaid i ni weithio'n well. Os yw Cymru am gael llywodraeth wirioneddol ffeministaidd[121], mae gofyn newid ein ffordd o bennu gwerth gofal a buddsoddi’n sylweddol ynddo. Bellach, ni chaiff gofalwyr fod yn anweladwy a dal ein cymdeithas ynghyd ar yr un pryd. Ni chaiff y gydgefnogaeth ar gyfer gofalwyr a gweithwyr allweddol eraill yn ystod argyfwng y coronafeirws fod yn droednodyn yn ein hanes - rhaid iddi sbarduno newid. Rhaid i ni wrando ar

ofalwyr ac yna rhaid gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried yr adferiad - 'Cymru ein Dyfodol', ac ni allwn anwybyddu gofal wrth ailadeiladu yn well. Rhaid i ni, gyda'n gilydd, wneud i ofal gyfrif yng Nghymru.

**OXFAM CYMRU**

**Cydnabyddiaeth:** Ysgrifennwyd y papur hwn gan Rachel Cable. Mae Oxfam yn cydnabod cymorth Kirsty Davies-Warner, Ieuan Ferrer, Silvia Galandini, Jamie Livingstone, Amber Parkes, ac Anam Parvez Butt.

Diolchiadau pellach i'r canlynol: Beth Evans, Gofalwyr Cymru; Steffan Evans, Sefydliad Bevan; Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; Ellie Harwood, y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant; a Bethan Webber, Home-Start Cymru.

Mae'r papur hwn yn rhan o gyfres sy'n cyfrannu at y drafodaeth gyhoeddus ar y cydadwaith rhwng gofal a thlodi.

---

**Cyfeirnodau**

[1] Clifton, A. (2020). Coronafeirws: Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Ar gael yn https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-adult-social-care/

[2] Oxfam Cymru, (2020). Political leaders urged to act as poverty crisis places 'intolerable pressure' on frontline of Coronavirus battle in Wales. Ar gael yn https://oxfamapps.org/cymru/political-leaders-urged-to-act-as-poverty-crisis-places-intolerable-pressure-on-carers-on-frontline-of-coronavirus-battle-in-wales/

[3] Drakeford, M. (2018). Mark Drakeford, ein Harweinydd, Maniffesto: Sosialaeth yr Unfed Ganrif ar Hugain, Arweinyddiaeth Llafur 2018. Ar gael yn https://skwawkbox.org/wp-content/uploads/2018/11/manifesto-english-print.pdf

[4] Galandini, S. a Ferrer, I. (2020). Gwneud i Ofal Gyfrif: Gwaith Gofal Di-dâl a Heb Dâl Ledled Prydain, Oxfam GB. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952

[5] Coffey, C., Espinoza Revollo, P., Harvey, R., Lawson, M., Parvez Butt, A., Piaget, K., Sarosi, D., a Thekkudan, J. (2020). Time to Care: Unpaid and underpaid care work and the global inequality crisis, Oxfam. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/time-to-care-unpaid-and-underpaid-care-work-and-the-global-inequality-crisis-620928

[6] Y Cenhedloedd Unedig, (2020), Policy Brief: The Impact of COVID-19 on Women. Ar gael yn https://www.un.org/sites/un2.un.org/files/policy_brief_on_covid_impact_on_women_9_april_2020.pdf

[7] yr Undeb Addysg Cenedlaethol, (2019), Women are more likely to experience persistent poverty. Ar gael yn https://neu.org.uk/advice/women-and-poverty

[8] Chapman, B. (2019). Women's pensions £100,000 less than men's due to gender pay gap and childcare commitments, Independent. Ar gael yn https://www.independent.co.uk/news/business/news/pension-savings-gap-childcare-gender-pay-gap-women-a9000066.html

[9] Zacharias A. (2017). How time deficits and hidden poverty undermine the sustainable development goals, Sefydliad Economaidd. Ar gael yn http://www.levyinstitute.org/pubs/pn_17_4.pdf

[10] Coffey, C., Espinoza Revollo, P., Harvey, R., Lawson, M., Parvez Butt, A., Piaget, K., Sarosi, D., a Thekkudan, J. (2020). Time to Care: Unpaid and underpaid care work and the global inequality crisis, Oxfam. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/time-to-care-unpaid-and-underpaid-care-work-and-the-global-inequality-crisis-620928

[11] Oxfam Rhyngwladol (2020). Close to half of women are feeling more anxious, depressed, isolated, overworked or ill because of increased unpaid care work caused by the pandemic. Ar gael yn https://www.oxfam.org/en/press-releases/close-half-women-are-feeling-more-anxious-depressed-isolated-overworked-or-ill

[12] Ibid

[13] Ibid

[14] Stats Cymru, (2020). Canran yr holl unigolion, plant, oedolion oedran gweithio a phensiynwyr sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol ar gyfer y DU. Ar gael yn https://statswales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Poverty/householdbelowaverageincome-by-year

[15] Dickins, S. (2020), Coronavirus: Wales 'more exposed' to economic crisis, Newyddion y BBC. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52650477

[16] Sefydliad Bevan, (2020). Coronavirus and Fair Work. Ar gael yn https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2020/07/Coronavirus-Fair-Work-Final.pdf.

[17] Dickins, S. (2020), Coronavirus: Wales 'more exposed' to economic crisis, Newyddion y BBC. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52650477

[18] Galandini, S. a Ferrer, I. (2020). Gwneud i Ofal Gyfrif: Gwaith Gofal Di-dâl a Heb Dâl Ledled Prydain, Oxfam GB. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952
[19] Coffey, C., Espinoza Revollo, P., Harvey, R., Lawson, M., Parvez Butt, A., Piaget, K., Sarosi, D., a Thekkudan, J. (2020). Time to Care: Unpaid and underpaid care work and the global inequality crisis, Oxfam. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/time-to-care-unpaid-and-underpaid-care-work-and-the-global-inequality-crisis-620928
[20] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (2017). Families and the labour market, England: 2017. Ar gael yn https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandempl%20oyeetypes/articles/familiesandthelabourmarketengland/2017 .
[21] Guardian News, (2020). Parents, carers and disabled people in UK 'twice as likely to lose job'. Ar gael yn https://www.theguardian.com/world/2020/aug/06/parents-carers-and-disabled-people-in-uk-twice-as-likely-to-lose-job.
[22] Carers UK, (2020). Carers UK responds to ONS statistics on the impact of Covid-19 on caring. Ar gael yn https://www.carersuk.org/news-and-campaigns/press-releases/carers-uk-responds-to-ons-statistics-on-the-impact-of-covid-19-on-caring.
[23] Williams, E. (2019). Women and the Spending Review. Women's Budget Group. Ar gael yn https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/spending-review-briefing-final-29-08- 19.pdf
[24] Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, (2020). Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2020. Ar gael yn https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Feminist-Scorecard-Report-2020-Eng.pdf
[25] Gofalwyr Cymru, (2020). The forgotten families in lockdown: unpaid carers close to burnout during Covid-19 crisis. Ar gael yn https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/the-forgotten-families-in-lockdown-unpaid-carers-close-to-burnout-during-covid-19-crisis-wales.
[26] Carers UK, (2020). What is Carer's Allowance? Ar gael yn https://www.carersuk.org/help-and-advice/financial-support/help-with-benefits/carers-allowance.
[27] Carers UK, (2020). Carers Week 2020 Research Report The rise in the number of unpaid carers during the coronavirus (COVID-19) outbreak. Ar gael yn https://www.carersuk.org/images/CarersWeek2020/CW_2020_Research_Report_WEB.pdf
[28] Oxfam GB, (2020). Please act now to end poverty for Britain's carers. Ar gael yn https://www.oxfamapps.org.uk/coronavirus/our-response/in-the-uk/care-for-carers/care-letter/
[29] Oxfam Cymru, (2020). Political leaders urged to act as poverty crisis places 'intolerable pressure' on carers on frontline of Coronavirus battle in Wales. Ar gael yn https://oxfamapps.org/cymru/political-leaders-urged-to-act-as-poverty-crisis-places-intolerable-pressure-on-carers-on-frontline-of-coronavirus-battle-in-wales/
[30] Gofalwyr Cymru, (2020). The forgotten families in lockdown: unpaid carers close to burnout during Covid-19 crisis. Ar gael yn https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/the-forgotten-families-in-lockdown-unpaid-carers-close-to-burnout-during-covid-19-crisis-wales.
[31] Galandini, S. a Ferrer, I. (2020). Gwneud i Ofal Gyfrif: Gwaith Gofal Di-dâl a Heb Dâl Ledled Prydain, Oxfam GB. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952
[32] Clifton, A. (2020). Coronafeirws: Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Ar gael yn https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-adult-social-care/
[33] Evans, B. (2015), Value of unpaid care in Wales reaches over £8billion a year, Gofalwyr Cymru. Ar gael yn https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/vale-of-unpaid-care-in-wales
[34] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2019). Gofalu am ein dyfodol - Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr. Ar gael yn https://business.senedd.wales/documents/s96075/Report%20-%20Caring%20for%20our%20Future%20An%20inquiry%20into%20the%20impact%20of%20the%20Social%20Services%20and%20Well-being%20Wa.pdf
[35] ITV Wales, (2019). Lack of support for Wales' 370,000 unpaid carers 'a massive problem'. Ar gael yn https://www.itv.com/news/wales/2019-06-10/lack-of-support-for-wales-370-000-unpaid-carers-a-massive-problem/
[36] Ibid
[37] Ibid
[38] Gofalwyr Cymru, (2019). Dilyn y Ddeddf 2019 - Monitro'r 3edd flwyddyn o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn https://www.carersuk.org/files/section/5763/2054-carers-wales-track-the-act-briefing-4-final-270919.pdf.
[39] Carers UK, (2019). State of Caring: A snapshot of unpaid care in the UK. Ar gael yn http://www.carersuk.org/images/News__campaigns/CUK_State_of_Caring_2019_Report.Pdf
[40] Yeandle, S., Bennet, C., Buckner, L., Fry, G. a Price, C. (2007). Diversity in Caring: towards quality for carers. Prifysgol Leeds, cyhoeddwyd gan Carers UK. Ar gael yn http://circle.group.shef.ac.uk/wp-content/uploads/2018/04/CES-3-EWS4028Diversity-in-caring.pdf.
[41] Oxfam Cymru, (2020. (2020). Political leaders urged to act as poverty crisis places 'intolerable pressure' on frontline of Coronavirus battle in Wales. Ar gael yn https://oxfamapps.org/cymru/political-leaders-urged-to-act-as-poverty-crisis-places-intolerable-pressure-on-carers-on-frontline-of-coronavirus-battle-in-wales/

[42] Gofalwyr Cymru, (2019). State of Caring. Ar gael yn https://www.carersuk.org/files/section/6239/carers-wales-state-of-caring-2019-final.pdf.
[43] Gofalwyr Cymru, (2020). Pandemig Covid-19: 200,000 yn dod yn ofalwyr di-dâl yng Nghymru mewn mater o wythnosau. Ar gael yn https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/covid-19-pandemic-200-000-become-unpaid-carers-in-wales-in-a-matter-of-weeks
[44] Clifton, A. (2020). Coronafeirws: Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Ar gael yn https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-adult-social-care/
[45] Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, (2020). Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2020. Ar gael yn https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/04/Feminist-Scorecard-Report-2020-Eng.pdf
[46] Ibid
[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2019). Gofalu am ein dyfodol - Ymchwiliad i effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr, y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2019). Ar gael yn https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12887/cr-ld12887%20-e.pdf
[48] Gofalwyr Cymru, (2020). The forgotten families in lockdown: unpaid carers close to burnout during Covid-19 crisis. Ar gael yn https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/the-forgotten-families-in-lockdown-unpaid-carers-close-to-burnout-during-covid-19-crisis-wales
[49] Carers UK, (2020). Unpaid carers twice as likely to have used a food bank during pandemic. Ar gael yn https://www.carersuk.org/news-and-campaigns/press-releases/unpaid-carers-twice-as-likely-to-have-used-a-food-bank-during-pandemic.
[50] Galandini, S. a Ferrer, I. (2020). Gwneud i Ofal Gyfrif: Gwaith Gofal Di-dâl a Heb Dâl Ledled Prydain, Oxfam GB. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952
[51] Women's Budget Group, (2019). Social Security and Women. Ar gael yn https://wbg.org.uk/analysis/uk-policy-briefings/2019-wbg-briefing-social-security-and-gender/
[52] Ibid
[53] Lee, T. (2020) There's nothing basic about basic income, Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Ar gael yn https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/There%E2%80%99s%20nothing%20basic%20about%20basic%20income.pdf.
[54] Sefydliad Joseph Rowntree (2018). Universal Basic Income - not the answer to poverty. Ar gael yn https://www.jrf.org.uk/blog/universal-basic-income-not-answer-poverty
[55] Mae cwestiwn ynghylch a allai dinasyddiaeth, hawl i adael, neu statws arall fod yn ofynnol er mwyn derbyn y taliad. Ni fyddai llawer o'r fersiynau a gynigir yn rhoi arian i'r holl bobl sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig.
[56] Hayward, W. (2020). Universal Basic Income: the scheme where the Government would give you free money every month, Wales Online. Ar gael yn https://www.walesonline.co.uk/news/politics/universal-basic-income-coronavirus-government-18243181
[57] Gofalwyr Cymru, Employers for Carers. Ar gael yn https://www.carersuk.org/wales/policy-resources-for-professionals/employers-for-carers-wales-hub
[58] Ibid
[59] Gofalwyr Cymru, (2019). State of Caring. Ar gael yn https://www.carersuk.org/files/section/6239/carers-wales-state-of-caring-2019-final.pdf.
[60] Carers UK, (2020). Juggling work and unpaid care A growing issue. Ar gael yn http://www.carersuk.org/images/News_and_campaigns/Juggling_work_and_unpaid_care_report_final_0119_WEB.pdf.
[61] Ibid
[62] Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2015). Round the Clock: In-work Poverty and the Hours Question. Ar gael yn http://cpag.org.uk/sites/default/files/CPAG_Round_the_clock.pdf
[63] Ibid
[64] Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant). The Cost of Learning in Lockdown – Family Experiences of School Closures. Ar gael yn https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/The-cost-of-learning-in-lockdown-UK-FINAL_0.pdf.
[65] Shuttleworth, P., (2020). Coronavirus: Wales' pre-school childcare faces 'uncertain future', Newyddion y BBC. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53006866.
[66] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, (2018). Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru, Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ar gael yn https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11669/cr-ld11669-e.pdf
[67] Swaffield, L. ac Egan, D., (2019). Toesen Cymru 2020: Fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol, Oxfam Cymru. Ar gael yn https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620979/rr-welsh-doughnut-2020-sustainability-social-justice-010320-en.pdf?sequence=1
[68] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, (2018) Closing the gender pay gap. Ar gael yn https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/closing-the-gender-pay-gap.pdf
[69] Fforwm Economaidd y Byd, (2019). These countries have the most expensive childcare. Ar gael yn https://www.weforum.org/agenda/2019/04/these-countries-have-the-most-expensive-childcare/

[70] Evans C., (2017). In-work poverty and the search for decent work for women in Wales: A literature review. Ar gael yn https://www.cardiffmet.ac.uk/management/research/Documents/Decent%20Work%20Report%202018.pdf
[71] Women's Budget Group, (2017). Costing and funding free universal childcare of high quality. Ar gael yn https://wbg.org.uk/analysis/costing-funding-childcare/
[72] McCluskey, M., (2018). The Global Legacy of Quebec's Subsidized Child Daycare, Bloomberg. Ar gael yn https://www.bloomberg.com/news/articles/2018-12-31/affordable-daycare-and-working-moms-the-quebec-model
[73] Davies-Jones AS, A., (2020). Caffi RhCM: women's caring responsibilities during the Covid-19 pandemic, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru. Ar gael yn https://twitter.com/WENWales/status/1289523877207367681 and https://wenwales.org.uk/wen-cafe-womens-caring-responsibilities-during-the-covid-19-pandemic/.
[74] Senedd Cymru, (2020). Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig. Ar gael yn https://business.senedd.wales/documents/s103882/Into%20sharp%20relief%20inequality%20and%20the%20pandemic.pdf.
[75] Ibid
[76]RhCM Cymru, (2020) COVID-19 a Hawliau Menywod. Ar gael yn https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/WEN-Wales-COVID19-June-2020.pdf.
[77] Howes, S., (2019). Tackling Poverty in Schools, Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. Ar gael yn https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/Tackling_poverty_in_schools_final_project_report.pdf.
[78]Caerffili, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.
[79] Ballinger, L., (2020). Coronavirus: Key workers' childcare 'struggle' after hubs shut, Newyddion y BBC. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53450243.
[80] Ibid
[81] Llywodraeth Cymru, (2019). Prydau Ysgol am Ddim yng Nghymru: Gwybodaeth i Rieni a Gwarcheidwaid. Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-04/free-school-meals-in-wales-information-for-parents-and-guardians.pdf.
[82] Drakeford, M., (2018). Mark Drakeford, ein Harweinydd, Maniffesto: Sosialaeth yr Unfed Ganrif ar Hugain, Arweinyddiaeth Llafur 2018. Ar gael yn https://skwawkbox.org/wp-content/uploads/2018/11/manifesto-english-print.pdf
[83] Pollock, I., (2019). 20,000 more care workers needed in Wales by 2030, Newyddion y BBC. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47440774
[84] Ibid
[85] Galandini, S. a Ferrer, I. (2020). Gwneud i Ofal Gyfrif: Gwaith Gofal Di-dâl a Heb Dâl Ledled Prydain, Oxfam GB. Ar gael yn https://policy-practice.oxfam.org.uk/publications/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952
[86] Skills for Care, (2019). The state of the adult social care sector and workforce in England. Ar gael yn https://www.skillsforcare.org.uk/adult-social-care-workforce-data/Workforceintelligence/publications/national-information/The-state-of-the-adult-social-care-sectorand-workforce-in-England.aspx
[87] Oxfam Cymru, (2020). Political leaders urged to act as poverty crisis places 'intolerable pressure' on frontline of Coronavirus battle in Wales. Ar gael yn https://oxfamapps.org/cymru/political-leaders-urged-to-act-as-poverty-crisis-places-intolerable-pressure-on-carers-on-frontline-of-coronavirus-battle-in-wales/
[88] Dromey, J. a Hochlaf, D., (2018). Fair Care: A workforce strategy for social care, Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus. Ar gael yn https://www.ippr.org/files/2018-11/fair-care-aworkforce-strategy-november18.pdf pp 18–21
[89] Newyddion y BBC, (2018). Curb on zero-hour care worker contracts and 'call clipping'. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43606992
[90] Davies. N., Knight, L. a Turkman, H., (2017). Gwaith boddhaol i fenywod yng Nghymru: Astudiaeth sectorol, Chwarae Teg. Ar gael yn https://chwaraeteg.com/wp-content/uploads/2019/01/Study-Decent-Work-for-Women-in-Wales-Oct-2017-report.pdf
[91] Ibid
[92] https://www.fawcettsociety.org.uk/news/vast-majority-of-the-public-think-care-workers-are-underpaid
[93] Winkler, V., (2019). Yn gaeth: Tlodi ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw, Sefydliad Bevan. Ar gael yn https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2019/12/Trapped-Poverty-amongst-women-in-Wales-today.pdf.
[94] Ibid
[95] Clifton, A., (2020). Coronafeirws: Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Ar gael yn https://seneddresearch.blog/2020/05/19/coronavirus-adult-social-care/.
[96] Newyddion y BBC, (2020). Coronavirus: Care workers still waiting on £500 bonus. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53300473
[97] Newyddion y BBC, (2018). Curb on zero-hour care worker contracts and 'call clipping'. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-43606992
[98] Morgan, J. AC., (2019). Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar elfennau'r gweithlu yng ngham 2 o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn https://gov.wales/written-statement-consultation-workforce-elements-phase-2-implementation-regulation-and-0

[99] Drakeford, M. (2018). Mark Drakeford, ein Harweinydd, Maniffesto: Sosialaeth yr Unfed Ganrif ar Hugain, Arweinyddiaeth Llafur 2018. Ar gael yn https://skwawkbox.org/wp-content/uploads/2018/11/manifesto-english-print.pdf
[100] Holtham, G., (2018). Talu am Ofal Cymdeithasol, Adroddiad Annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/paying-for-social-care.pdf
[101] Cymdeithas Fawcett, (2020). Public think care workers are underpaid. Ar gael yn https://www.fawcettsociety.org.uk/news/vast-majority-of-the-public-think-care-workers-are-underpaid
[102] Y Comisiwn Gwaith Teg, (2019). Gwaith Teg Cymru. Ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/fair-work-wales.pdf
[103] Sefydliad Bevan, (2020). Lynne Hackett of Unison Cymru highlights the role of carers and why change is needed to ensure the quality of care for clients and dignity at work for employees. Ar gael yn https://www.bevanfoundation.org/commentary/wonderful-care-workers-deserve-fair-wages/
[104] Thomas, N., (2020), Care Forum Wales on coronavirus impact on social care sector, South Wales Argus https://www.southwalesargus.co.uk/news/18569888.care-forum-wales-coronavirus-impact-social-care-sector/
[105] Banc y Byd, (2020). Poverty Overview. Ar gael yn: https://www.worldbank.org/en/topic/poverty/overview
[106] Oxfam. (2020). Water and sanitation. Ar gael yn: https://www.oxfam.org/en/what-wedo/issues/water-and-sanitation
[107] Sumner, A. et al, (2020). Estimates of the Impact of COVID-19 on Global Poverty. Ar gael yn
[108] https://insights.careinternational.org.uk/publications/covid-19-could-condemn-women-to-decades-of-poverty
[109] Llywodraeth Cymru, (2020). Strategaeth Ryngwladol i Gymru. Ar gael yn https://gov.wales/international-strategy-for-wales
[110] YWCA Canada, (2020). A Feminist Recovery Plan for Canada. Ar gael yn https://www.feministrecovery.ca/the-plan.
[111] Elson, D., (2017). Recognise, Reduce, and Redistribute Unpaid Care Work: How to Close the Gender Gap, Sage Journals. Ar gael yn https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/1095796017700135
[112] Oxfam, (2020). Care in the time of coronavirus - Why care work needs to be at the centre of a post-COVID-19 feminist future. Ar gael yn https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/621009/bp-care-crisis-time-for-global-reevaluation-care-250620-en.pdf?sequence=13
[113] Glyn Jones, T., (2020). Gender equality: 'We value men's work more than women's', Newyddion y BBC. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53444782.
[114] Swaffield, L. ac Egan, D., (2019). Toesen Cymru 2020: Fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol, Oxfam Cymru. Ar gael yn https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620979/rr-welsh-doughnut-2020-sustainability-social-justice-010320-en.pdf?sequence=1
[115] Howe. S., (2020). Incwm Sylfaenol Cyffredinol brys, wythnos pedwar diwrnod ac economi lles – cynllun Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ail-lunio Cymru ar ôl y coronafeirws. Ar gael yn https://futuregenerations.wales/news/urgent-universal-basic-income-a-four-day-week-and-a-wellbeing-economy-future-generations-commissioners-plan-to-reshape-wales-after-coronavirus/
[116] Women's Budget Group, (2020). A Care-Led Recovery from Coronavirus. Ar gael yn https://wbg.org.uk/analysis/reports/a-care-led-recovery-from-coronavirus/
[117] Gofalwyr Cymru, (2019). Dilyn y Ddeddf 2019 Monitro'r 3edd flwyddyn o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar gael yn https://www.carersuk.org/files/section/5763/2054-carers-wales-track-the-act-briefing-4-final-270919.pdf.
[118] RhCM Cymru, (2020) COVID-19 a Hawliau Menywod. Ar gael yn https://wenwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/WEN-Wales-COVID19-June-2020.pdf.
[119] Ibid
[120] Y Sefydliad Cyflog Byw, (2019). What is the Real Living Wage. Ar gael yn https://www.livingwage.org.uk/what-real-living-wage
[121] Newyddion y BBC, (2018). Men need to understand feminism to tackle inequality says Carwyn Jones. Ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-44196315.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-JH-3575-20

Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon,
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad,
Pwyllgor Cyllid, a
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig.

25 Tachwedd 2020

Cadeirydd Annwyl,

Yn ei Ddatganiad Llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd ("y Ddyletswydd") yn un o bum maes a gadarnhawyd yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol i'w chyflawni cyn diwedd y tymor Senedd hwn. Yn dilyn hynny ar 16 Gorffennaf, cadarnheais trwy Ddatganiad Ysgrifenedig y byddai'r Ddyletswydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021.

Gan gychwyn Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddyletswydd, bydd yn ofynnol i gyrff cyhoeddus penodedig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae cwmpas pwerau Gweinidog Cymru i ddal cyrff cyhoeddus Cymru yn ôl y Ddyletswydd yn cael ei bennu gan 'brawf' yn adran 2 (6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn seiliedig ar hyn, rwy'n rhagweld y bydd y cyrff cyhoeddus Cymreig canlynol yn cael eu nodi yn y Rheoliadau:

- Gweinidogion Cymru;
- Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig;
- Awdurdodau lleol;
- Awdurdodau Tân ac Achub;
- Awdurdod Cyllid Cymru; a
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cydnabod y pwysau sydd ar amserlenni Pwyllgor y Senedd rhwng nawr a diwedd tymor y Senedd hon. Rwy'n ysgrifennu felly i gynnig cyfle i'ch Pwyllgor, fel un a fydd â diddordeb yn y Ddyletswydd, gael sesiwn friffio dechnegol o fy mlaen i osod y Rheoliadau yn y Senedd ar 9 Chwefror 2021. Byddai hyn yn rhoi cyfle i chi ac Aelodau'r Pwyllgor ddeall y fframwaith deddfwriaethol a'r egwyddorion y tu ôl i'r Ddyletswydd. Pe bai hyn yn ddefnyddiol i chi, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Clerc eich Pwyllgor gysylltu â'r Rhaglen Ddeddfwriaethol a'r Uned Lywodraethu i wneud trefniadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ddyletswydd, gan gynnwys canllawiau anstatudol interim, gweler gwefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon